Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 24 Tachwedd 2017**

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Tracey Burke
James Price
David Richards
Gawain Evans
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens
Ann Keane
Adrian Webb (Eitemau 1-4)
Peter Kennedy
Dean Medcraft
James Turner
Gillian Baranski
Lynne Schofield
Catherine Ashford

**Yn cefnogi:**
Des Clifford (Eitem 3)
Piers Bisson (Eitem 3)
Peter Ryland (Eitem 3)
Caren Fullerton (Eitem 4)
Peter Jones (Eitem 4)
Crispin O'Connell (Eitem 4)
Allan Boyd (Eitem 5)
Kathryn Jenkins (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Sarita Marshall

**Ymddiheuriadau:**
Jeff Godfrey

1. **Carl Sargeant AC [Llafar]**

1.1 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol fod ymdeimlad o golled a thristwch yn y sefydliad yn dilyn marwolaeth Carl Sargeant AC. Roedd am atgoffa staff fod cymorth ar gael drwy nifer o sianeli.

1.2 Talodd yr Ysgrifennydd Parhaol deyrnged i frwdfrydedd Mr Sargeant a'i ymroddiad i'w waith, gan ddweud y byddai Llywodraeth Cymru, o ganlyniad i'r ymroddiad personol hwnnw, yn treialu cynllun prentisiaethau i bobl sy'n gadael gofal, rywbryd yn y dyfodol.

1.3 Clywodd y Bwrdd fod yr Ysgrifennydd Parhaol wedi arwyddo'r llyfr cydymdeimlo yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru a bod baneri Llywodraeth Cymru wedi eu gostwng hanner ffordd. Hefyd byddai munud o dawelwch ar draws y sefydliad i gyd-ddigwydd ag angladd Mr Sargeant.

**Perfformiad Llywodraeth Cymru**

2. **Adroddiad Cyllid [Bwrdd(17)069]**

2.1 Cyflwynodd Gawain Evans, y Cyfarwyddwr Cyllid, bapur yn amlinellu rhagolwg o'r sefyllfa ariannol ar gyfer 2017/18, gan gynnwys y prif bwysau arni.

2.2 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dod yn gyntaf yn y rhestr o adrannau gweinyddiaethau datganoledig a Llywodraeth y DU, a hynny ar sail cywirdeb ei rhagolygon ariannol. Roedd hyn wedi digwydd dair gwaith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

2.3 Trafododd y Bwrdd y trefniadau sy'n ymwneud â chyllid cyfalaf, a chytunwyd y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg ystyried cyflwyno eitem ar hyn mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Corfforaethol**

3. **Y Cronfeydd Strwythurol a'r Diweddaraf am y Trefniadau Pontio Ewropeaidd [Bwrdd(17)070]**

3.1 Rhoddodd Des Clifford, Cyfarwyddwr Swyddfa’r Prif Weinidog, a Piers Bisson, Dirprwy Gyfarwyddwr y Trefniadau Pontio Ewropeaidd, y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd ynghylch hynt materion sy'n ymwneud â'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd.

3.2 Dywedodd yr Ysgrifennydd Parhaol ei bod wedi mynychu'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol, gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, i drafod parodrwydd ar gyfer pontio Ewropeaidd, a chynigiodd rannu'r papur gydag aelodau'r Bwrdd.

3.3 Trafododd y Bwrdd y sefyllfa ynghylch cronfeydd strwythurol, a chytunwyd y dylid trefnu cyfarfod i'r holl bartïon â diddordeb i drafod opsiynau ac amserlenni rhai o'r prosiectau.

4. **Dyfodol TGCh [Bwrdd(17)071]**

4.1 Cyflwynodd Caren Fullerton, y Prif Swyddog Digidol, a Peter Jones, y Pennaeth Cyllid, opsiynau ar gyfer model gweithredu TGCh yn y dyfodol, ynghyd â'r manteision a'r risgiau perthnasol. Byddai adolygiad Gateway yn sicrhau bod y cynnig yn destun craffu allanol.

4.2 Cytunodd y Bwrdd ar yr opsiwn a argymhellwyd gan ofyn bod yr achos busnes llawn ar gyfer yr opsiwn yn cael ei ddatblygu, ac yn cynnwys dewisiadau sy'n ymwneud â chostau.

4.3 Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol y tîm ar ei waith a chanlyniadau'r Arolwg Pobl, a oedd wedi dangos bod cynnydd yn lefel y boddhad mewn perthynas â gwasanaethau TGCh.

5 **Y Diweddaraf am Seiberddiogelwch [Bwrdd(17)072]**

5.1 Rhoddwyd amlinelliad i'r Bwrdd ar y statws seiberddiogelwch presennol.

5.2 Cafodd goblygiadau'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol eu trafod a chytunwyd y dylai'r digwyddiad TEDx ar faterion digidol, a oedd i'w gynnal maes o law, gynnwys negeseuon ynghylch hyn.

**Eitemau Rheolaidd**

6 **Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Llafar]**

*Cynnig ar Weithio Hyblyg – y Pwyllgor Gweithrediadau*

6.1 Cyflwynodd Dean Medcraft, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau, a Natalie Pearson, Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu, gynnig ar weithredu Gweithio Hyblyg. Anghenion busnes fyddai'r egwyddor a fyddai'n sail i'r gwaith o gyflwyno'r fenter. Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cysylltu'r gwaith â'r fenter paratoi at y dyfodol, gan ei fod yn rhywbeth sy'n helpu i greu gweithlu medrus, cynhyrchiol, a chadarn.

6.2 Cymeradwyodd y Bwrdd y cynnig fel fframwaith, gan nodi pa mor bwysig oedd anghenion busnes a chyflawni i'r Cabinet. Cytunwyd y byddai arweinyddiaeth a'r ymroddiad i ymgysylltu â'r tîm yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant.

*Adroddiadau Eithrio*

6.3 Llongyfarchodd yr Ysgrifennydd Parhaol Natalie Pearson ar y digwyddiad TEDx diweddar a oedd yn ymwneud â pholisi, arloesi a chydweithio. Cadarnhaodd Natalie y byddai ffilmiau o'r diwrnod ar gael i'r holl staff eu gwylio.

6.4 Rhoddwyd y newyddion diweddaraf am y gwaith paratoi at y dyfodol a oedd yn yr arfaeth, a gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd annog eu Dirprwy Gyfarwyddwyr i fynd ati i neilltuo eu diwrnodau datblygu tîm *Dyfodol-Ymgysylltu-Cyflawni*.

7 **Y Diweddaraf gan yr Is-bwyllgorau [Llafar]**

7.1 Rhoddodd Dean Medcraft y newyddion diweddaraf o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor Gweithrediadau, a oedd yn cynnwys eitemau ar reoli cofnodion, a chynigion ar gyfer gwella dulliau o gasglu a dadansoddi gwybodaeth reoli, yn ogystal â mynd at wraidd y mater o ran ystadegau gohebiaeth weinidogol.

7.2 Cytunwyd y dylid rhannu'r prif negeseuon am ohebiaeth weinidogol gyda'r Grŵp Busnes.

7.3 Rhoddodd James Turner y newyddion diweddaraf o gyfarfod diwethaf y Pwyllgor ar Gydnabyddiaeth Ariannol Uwch Weision Sifil.

7.4 Rhoddodd David Richards, Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, y newyddion diweddaraf o gyfarfod diwethaf y bwrdd.

7.5 Cytunwyd y dylid rhoi diweddariad ar ddeddfwriaeth mewn cyfarfod o'r Uwch Dîm yn y dyfodol.

**8 Unrhyw fater arall**

8.1 Tynnodd yr Ysgrifennydd Parhaol sylw aelodau'r Bwrdd at y papurau i'w nodi.

**Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd, 30 Tachwedd 2017**